# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
## Cadeirydd: Dewi Ll Evans
Nos Lun Mai 24ain 2021 am 7.30 y.h.

## ***Cofnodion***

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y gadair gan y Cyn-gadeirydd Gerallt Jones

1. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Sirol Garffild Lewis.
2. **Presennol**: Cyng. Gari Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad**: Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mawrth** cynigiwyd yn gywir gan GBJ gyda ER yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion**:-
   5.1. Dim
6. **Gohebiaeth:**
   6.1. Dim
7. **Monitro'r Gyllideb:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Talu Anfonebau:**
   8.1. CBSC – sgip gymunedol - Cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio. Talwyd £230.00 + TAW £46.00 = **£276.00** gyda siec rhif **100350**. (S137)
   8.2. Hill & Roberts – cyfrifydd – Cynigiodd GR gyda ER yn eilio talu'r anfoneb o £110.00 + TAW £22.00 = **£132.00** gyda siec rhif **100354.** (S151)
   8.3. Planhigion Glyndŵr – Blodau = cynigiodd GP gyda GR yn eilio talu'r anfoneb o ££66.58 + TAW £13.32 = **£79.90** gyda siec rhif **100351** (S19)
   8.4. Costau'r Clerc am 4 mis o Rhag i Fawrth cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio talu'r **£73.90** gyda siec rhif **100353** (150)
   8.5. Iona Edwards – archwilydd mewnol – cynigiodd AO gyda GR yn eilio talu'r anfoneb o £50.00 + £10.00 = **£60.00** gyda siec rhif **100352** (151)
9. **Derbyn Mantolen Ariannol 2020-2021:**
   a) Datganiad Llywodraethu Blynyddol cynigiodd GR gyda GBJ yn eilio a phawb yn gytûn fod pwyntiau 1-9 wedi eu cwblhau.
   b) Datganiad Cyfrifyddu 2020/2021 archwiliwyd y fantolen yn fanwl gyda GBJ yn cynnig ac ER yn eilio yna cytunwyd pawb fod y fantolen yn gywir a chyflawn.
10. **Mabwysiadu'r Rheoliadau:**
    i) Rheoliadau Sefydlog.
    ii) Rheoliadau Ariannol.
    iii) Rheoliadau Mewnol.
    iv) Polisi Ymateb i Gwynion.
    v) Asesiad Risg.
    vi) Còd Ymddygiad
    vii) Cyllid
    Derbyniwyd a mabwysiadwyd rheoliadau.
11. **Blodau i'r Pentref:**
    Cytunwyd ar archebu blodau ar gyfer y tybiau.
12. **Gair gan y Cyng. Sirol Garffild Lewis:** Nid oedd y Cyng. Sirol yn bresennol.
13. **Unrhyw fater arall:**
    13.1. Hysbysfwrdd – wedi derbyn allweddau newydd.
    13.2. Mandad newydd wedi ei gwblhau.
14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w drefnu.**

**Arwyddwyd** ________________________________ **Dyddiad**________________________

Cadeirydd